# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 1 Rhagfyr 2022 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A S Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Martyn Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru
Daniel Jones, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Allison Lowe, Cyngor Abertawe
Gary Mahoney, Cyngor Abertawe
Deanne Martin, Carchar a Gwasanaeth Prawf EM
Trudi Meyrick, Heddlu De Cymru
Keith Reid, Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Amy Richmond-Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mark Wade, Grŵp Iechyd a Thai
Ness Young, Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Corfforaetho

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Maggie Berry, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Amanda Carr, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
Sian Harrop-Griffiths, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Professor Chris Jones, Llywodraeth Cymru
Martin Nicholls, Cyngor Abertawe
Karen Stapleton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Rob Stewart, Cyngor Abertawe

## 31 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 32 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2022 fel cofnod cywir.

## 33 Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 34 Matrics Aeddfedrwydd - Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar (Llafar)

Bu Gary Mahoney, Cydlynydd Rhaglen y Blynyddoedd Cynnar, Cyngor Abertawe, yn amlinellu matrics aeddfedrwydd mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar y Sefydliad Ymyrryd yn Gynnar (EIF) a ddatblygwyd i gefnogi ardaloedd lleol i weithredu dull system-eang ar gyfer gwella canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd. Esboniodd mai offeryn hunan-asesu yw hyn, sy'n cefnogi partneriaid lleol i ddeall y sefyllfa o ran ymyrryd yn gynnar yn ystod plentyndod, nodi meysydd i'w gwella a gweithio gyda'i gilydd i sicrhau newid cadarnhaol.

Y cais i Gyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe oedd nodi noddwr strategol ar gyfer y matrics er mwyn symud y gwaith yn ei flaen.

**Camau Gweithredu:**

1) Dosbarthu'r adroddiad cychwynnol i'r Cyd-bwyllgor;
2) Bydd partneriaid yn nodi uwch-arweinydd nawdd strategol o bob sefydliad ar gyfer y matrics;
3) Darparu diweddariad i'r Cyd-bwyllgor maes o law.

## 35 Y Diweddaraf am y Cynllun Lles Lleol a Chyngor gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. (Diweddariad llafar)

Rhoddodd Suzy Richards, y Swyddog Polisi Cynaliadwy, ddiweddariad ar y cynnydd hyd yn hyn mewn perthynas â datblygiad y Cynllun Lles Lleol. Esboniodd fod y cyngor sydd yn y llythyr oddi wrth Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn hynod gadarnhaol a'u bod wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda thîm Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol a bod rhai o'r camau eisoes wedi'u rhoi ar waith cyn derbyn y cyngor. Caiff tabl o faterion ac ymatebion posib yn ymwneud â'r camau penodol o fewn y llythyr eu llunio yn ystod yr wythnos neu'r bythefnos nesaf.

Trafododd y Pwyllgor y materion a amlygwyd gan nodi'r pethau cadarnhaol niferus a nodwyd yn y cynllun drafft. Roedden nhw'n cydnabod nad oedd yr heriau a nodwyd yn anghyfarwydd a nodwyd bod y gofyniad i fod yn fwy eglur ynghylch sut roedd yr asesiad lles wedi ein harwain at y pwynt hwn a'r angen i ddangos sut y byddai'r holl waith yn cael ei integreiddio. Roedden nhw'n cytuno y byddai'n fuddiol cwrdd yn fuan er mwyn cysoni'r amcanion. Esboniodd Suzy Richards y disgwylir i arweinwyr yr amcanion gyfarfod yr wythnos nesaf er mwyn ymateb i'r materion a amlinellwyd yn y llythyr ac ymdrin â nhw. Byddai'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ochr yn ochr â'r broses ymgynghori.

## 36 Ffyrdd o weithio Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe. (Trafodaeth)

Holodd y Cadeirydd a allant wella'r ffordd y mae BGC Abertawe'n gweithio er mwyn ychwanegu gwerth.

Bu'r Pwyllgor yn trafod sgyrsiau blaenorol ynghylch uno â BGC Castell-nedd Port Talbot a'r cyfle i alinio neu ymuno â'r gwaith cadarnhaol sydd eisoes yn mynd rhagddo gyda phartneriaid eraill er mwyn osgoi gweithio seilo.

Nodwyd bod Swyddfa Archwilio Cymru eisoes wedi nodi nifer y partneriaethau strategol yng Nghymru a arweiniodd at ddyblygu a dim digon o waith rhannu arferion gorau.

Cytunodd y Pwyllgor ei bod yn werth ailsefydlu sgyrsiau blaenorol i holi a oedd cyfleoedd i weithio'n agosach gyda'i gilydd fel grŵp a cheisio manteisio ar y berthynas dda a'r trafodaethau cadarnhaol a oedd eisoes yn bodoli rhwng y rheini sy'n ymwneud â'r cyflawniad gweithredol er mwyn canolbwyntio ar ganlyniadau cyffredin.

**Camau Gweithredu:**

1) Cytunodd y Pwyllgor i gyfarfod yn fwy aml ar sail anffurfiol wyneb yn wyneb i nodi'r materion penodol o fewn y cynllun lles er mwyn meithrin perthynas a sicrhau bod atebion ar gael yn eu cylch;
2) Byddai Roger Thomas yn ail-ddechrau trafodaethau gyda BGC Castell-nedd Port Talbot yr wythnos nesaf;
3) Byddai'r Cadeirydd yn cychwyn y trafodaethau gwleidyddol.

## 37 Ymgysylltu/Ymgynghori (Trafodaeth)

Esboniodd Suzy Richards, Swyddog Polisi Cynaliadwy, fod cyllideb fach o gyllid rhanbarthol ar gael mewn perthynas ag ymgynghori, ymgysylltu a chyhoeddi'r Cynllun Lles. Holodd y partneriaid a oedd yn bresennol a oedd unrhyw fformatau neu ofynion penodol y byddai angen eu hystyried mewn perthynas â'i gyhoeddi.

**Camau Gweithredu:**

Bydd fersiwn ar-lein, gwbl hygyrch o'r Cynllun Lles Lleol yn cael ei chynhyrchu, a bydd yn cynnwys fideo gyda sain/is-deitlau.

## 38 Fframwaith Perfformiad/Adroddiadau Amlygu o'r 4 ffrwd waith.

Er gwybodaeth.

## 39 Rhaglen Waith ar gyfer y dyfodol:

Er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.01 pm

**Cadeirydd**